

# Papur y Plwyf

**Papur lleol electronig plwyf**  
Llangynnwr – Llangynnwr's local  
electronic paper

Rhif deg Rhagfyr 2011

Bydd Papur Y Plwyf yn son am ddigwyddiadau a phersonoliaethau yn ein cymuned. Os ydych am dderbyn copi, anfonwch eich cyfeiriad e-bost at [papuryplwyf@hotmail.co.uk](mailto:papuryplwyf@hotmail.co.uk)

**Nadolig  
Llawen i  
Chi Gyd**



**A Merry  
Christmas  
to  
Everyone**

## **Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog 2011**

Cynhaliwyd eisteddfod lwyddiannus iawn yn Neuadd Llandyfaelog ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 5ed gyda'r cystadlu yn frwd ac yn niferus trwy'r dydd. Y beirniaid eleni oedd :- Cerdd – Mrs. Pat Jones, Chwilog, Gwynedd; Llefaru a llên – Y Prifardd Mererid Hopwood, Llangynnwr; Arlunio – Mrs Rosemary Jones, Idole.



Enillwyd Cadair yr eisteddfod gan Aled Evans, Penymorfa, Llangynnwr gyda cherdd gaeth ar y testun

"Tân". Yr oedd hi'n gystadleuaeth safonol a niferus iawn o ran ymgeiswyr ac fe blesiwyd y beirniad yn fawr iawn. Yr oedd y gadair hardd a luniwyd yn lleol yn rhoddedig gan David a Marjorie Thomas a'r cwmni, Y Llew Coch, Llandyfaelog.

## **Canlyniadau Lleol Cerdd**

Unawd Bl. 1 a 2 – 1. Fflur Richards, 2. Ifan Knott, 3. Jac Thomas; Unawd Bl. 3 a 4 – 1. Ellen Williams, 2. Bethan Rock, 3. (cydradd) Lily Pickles ac Iwan Thomas; Unawd Bl. 5 a 6 – 1. Maja Pickles, 2. Millie Butterfield, 3. Luke Rees; Unawd offeryn cerdd ysgolion cynradd – 1. Millie Butterfield, 2. Iwan Thomas, 3. (cydradd) Nia Thomas ac Iestyn Richards; Parti unsain dan 16 – 1. Parti 4, Ysgol Y Fro, 2. Parti 3, Ysgol Y Fro, 3. Parti 1, Ysgol Y Fro; Unawd Offeryn Cerdd 11 – 16 – 1. Enlli Eluned Lewis, 2. Caryl Jones, 3. Lora Phillips. Parti Recorder – 1. Grŵp B, Ysgol Y Fro, 2. Grŵp A, Ysgol Y Fro; Unawd 11 – 16 – 1. Enlli Eluned Lewis, 2. Delyth Davies, 3. Dafydd Hywel Evans.

## **Llefaru**

Llefaru Bl. 1 a 2 – 1. Ifan Knott, 2. Fflur Richards, 3. Jac Thomas; Llefaru Bl. 3 a 4 – 1. Iestyn Richards, 2. Iwan Thomas; Llefaru Bl. 5 a 6 – 1. Maja Pickles, 2. (cydradd) Nia Thomas a Millie Butterfield; Llefaru 11 – 16 – 1. Enlli Eluned Lewis, 2. Osian Knott.

## **Arlunio**

Blwyddyn 1 a 2 – 1. Jac Thomas, 2. Oliver North Mullis, 3. Erin Vaughan; Blwyddyn 3 & 4 – 1. Joseph Prosser, 2. Hannah Thomas, 3. Sarah Thomas; Blwyddyn 5 a 6 – 1. Steffan Jones, 2. (cydradd) Chloe Solloway a Rhys Thomas, 3. Nia Thomas; Llawysgrifen Blwyddyn 7 – 11 – 1. Lora Phillips.

## **Calendr Llangynnwr 2012**

Os hoffech gopi o galendr Llangynnwr ar gyfer y flwyddyn nesaf, cysylltwch â Phapur y Plwyf ar

[papuryplwyf@hotmail.co.uk](mailto:papuryplwyf@hotmail.co.uk)

Anfonwyd copiau at baw sy'n derbyn y papur newyddion yma'n electronig.

## **Ymgyrch Cofrestru Etholwyr**

Ar hyn o bryd, y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal ymgyrch cofrestru etholwyr er mwyn sicrhau bod pob oedolyn yn y gymuned wedi'u cofrestru ar y gofrestr etholiad. Mae myfyrwyr sydd wedi gadael am y coleg yn ddiweddar yn gallu bod ar gofrestr Llangynnwr a chofrestr eu coleg ac mae hawl ganddynt gael pleidlais bost.

Bydd y nifer ar y gofrestr yn penderfynu ffiniau'r etholaethau seneddol newydd. Bydd cofrestr lawn yn sicrhau bod dau aelod seneddol gennym.

Am fwy o wybodaeth am gofrestru, cysylltwch a'r swyddfa gofrestru ar 01267 234567



MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

## **Cylch Meithrin Llangynnwr**

Dydd Llun, Mawrth, Iau a Dydd Gwener (Mon, Tues, Thurs & Fri)

9.00 – 11.30 £2.50 sesiwn

**Ysgol Llangynnwr**

**H.I. EVANS & FEIBION**  
**Llaethdy Penymorfa**  
Llaeth Ffres Pasteuredig o'r Fferm  
Papur Newydd  
Hufen ac wyau ffres cludiant  
dyddiol  
**Ffôn (01267) 236972**

## Merch o Langynnwr mewn perygl gyda chrocodelod

Bu cyn-ddisgybl o Q E High, Nicola Gurney, sydd yn dysgu yng ngwlad Tai, yng nghanol y llifogydd diweddar. Gan fod y llifogydd yn ddau fetr o ddyfnder, bu'n rhaid iddi ffoi o'i chartref i mewn i ddyfroedd yn llawn nadredd a chrocodelod.



## Wyneb ffordd newydd ar gyfer difrod gan yr afon

Rhodddwyd wyneb newydd gan y cyngor ar un ochr o ffordd y B4300 o Langynnwr i Gapel Dewi yn ddiweddar yn y fan lle mae'r afon Tywi wedi erydu'r lan o dan yr heol. Dywedodd y cynghorydd lleol Elwyn Williams, "Mae rhoi wyneb newydd ar ran o'r ffordd yn dangos na allwn ddisgwyl gwaith atgyweirio i ddechrau yn y dyfodol agos".

Anfonodd Gyngor Cymuned Llanarthne lythyr at y cyngor sir yn gofyn am atgyweirio'r lan a erydwyd cyn y gwneir mwy o ddfrod gan lifogydd y gaeaf.



Cysylltiadau Argyfwng  
ar gyfer cyfnod y  
Nadolig

**Heddlu Ambiwllans/Tân  
999**

**Heddlu - dim argyfwng  
101**

**Ysbyty Glangwili  
01267 235151**

**Cyngor Sir Caerfyrddin  
01267 234567**

**Gwasanaeth Argyfwng  
Nwy Cenedlaethol  
0800 111999**

**Dŵr Cymru  
Western Power  
0800 052 0400**

**NHS Direct  
0845 4647**

Am restr mwy manwl, gweler y ffeil gysylltiedig a baratowyd gan PC Richardson.



## Digwyddiadau'r Nadolig

### Ffair Nadolig yr ysgol

Bydd Ysgol Llangynnwr yn cynnal eu Ffair Nadolig yn neuadd yr ysgol am chwech o'r gloch ar Ragfyr y 13eg.

### Gwasanaethau Nadolig yn Eglwys Llangynnwr

Dydd Sul, Rhagfyr 18fed  
Cymundeb Sanctaidd 8yb.  
Naw gwers a charolau yng ngolau cannyll am 5pm  
Dydd Sadwrn, Rhagfyr 24  
Offeren Ganol Nos  
11.30pm

Dydd Sul 25 Rhagfyr  
Cymundeb Sanctaidd 8yb.

### Gwasanaethau Nadolig Capel Babel

Dydd Sul, Rhagfyr 11eg  
Gwasanaeth Nadolig Cylch  
Myrddin 2pm

Dydd Sul, Rhagfyr 18fed  
Gwasanaeth Nadolig  
Babel 10am

Cinio Nadolig i'w ddilyn yng  
Nghlwb Golf Caerfyrddin. I  
gadw lle, ffoniwch 232404.



Llun tymhorol a dynnwyd efallai yn ystod rhewi difrifol 1947. Mae'r triawd yn sefyll ar yr afon Tywi sydd wedi rhewi gyda'r hen bont rheilffordd a phont Caerfyrddin yn y cefndir. Mae'n bosibl mai tad y diweddar Dr. Margaret a oedd yn byw am flynyddoedd yn Lôn Penymorfa yw un o'r dynion.

## Pecyn Croeso Llangynnwr

Cytunodd Cyngor Cymuned Llangynnwr i gynhyrchu pecyn croeso ar gyfer pobl sydd yn symud i mewn i'r gymuned.

Mae is-bwyllgor o gynghorwyr, sef Paul Totterdale, Glenda Lloyd, Dai Watson a Geraint Bevan yn gweithio ar y cyhoeddiad gan obeithio y bydd yn barod erbyn y flwyddyn newydd.

Bydd yr is-bwyllgor hefyd yn edrych ar wefan bresennol y gymuned gan ystyried rhoi syniadau

am welliannau i'r cyngor llawn.

[www.llangunnor.org.uk/](http://www.llangunnor.org.uk/)